



Perchennog/Meddiannydd

Fy Nghyf / My Ref:
IF059/DK / P046-09

Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date:
9 Mehefin 2017

Annwyl Berchennog/Meddiannydd

Cynllun Arfaethedig - Cyfyngiad Cyflymder 20 MYA a Mesurau Tawelu Traffig. Cilhaul Terrace, Aberpennar - Ymgynghori â Thrigolion

Yn dilyn pryderon ynglŷn â chyflymder cerbydau, mae'r Cyngor wrthi'n llunio cynlluniau arfaethedig i ymestyn y parth 20 MYA sy'n bodoli eisoes ar Llanwonno Road fel ei fod yn cynnwys Cilhaul Terrace, Aberpennar.

Mae'r Cyngor yn ysgrifennu at drigolion perthnasol i roi gwybod iddyn nhw am y newidiadau arfaethedig ac i roi cyfle i drigolion ddweud eu dweud.

Mae llun G-0-2 yn cynnwys y manylion ynglŷn â'r cynllun arfaethedig. Efallai y byddwch chi'n dymuno gweld y cynlluniau arfaethedig ar wefan www.rctcbc.gov.uk/traffic

Hoffwn i gael eich sylwadau ynglŷn â'r cynigion yma. Amgaeaf ffurflen ateb ynghyd ag amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, efallai hoffech chi ymateb drwy anfon neges ebost i gwasanaethautraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk. Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 30 Mehefin 2017. Os na fydda i wedi clywed oddi wrthoch chi erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor yn ystod y broses o ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau y byddwn ni'n eu derbyn yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Dylan Kelleher

Technegydd Materion Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig
Ffôn: 01443 494894



Owner / Occupier

My Ref / Fy Nghyf:
IF059/DK / P046-09

Your Ref / Eich Cyf:

Date / Dyddiad:
9th June 2017

Dear Owner/Occupier

Proposed 20 mph Speed Limit and Traffic Calming Cilhaul Terrace, Mountain Ash - Residents Consultation

Following concerns regarding vehicle speeds, the Council are currently developing proposals to extend the existing 20 MPH zone on Llanwonno Road to include Cilhaul Terrace, Mountain Ash.

The council is writing to all affected residents to advise of the proposed changes and provide the opportunity for residents to submit their observations and or make comment.

Details of the proposals are shown on the attached drawing G-0-2. You may also wish to view the proposals at www.rctcbc.gov.uk/traffic

I shall be pleased to receive your observations on these proposals. For your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to trafficservices@rctcbc.gov.uk Responses should be returned with your observations by 30th June 2017. If I do not hear from you by that date, I shall assume that you have no comment to make on the proposals.

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

I trust the above is of assistance.

Dylan Kelleher

**Traffic Technician, Traffic Management
Telephone: 01443 494894**